Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Sadwrn 21 Hydref 2017 yn y Drenewydd

2017. 34 Addoli agoriadol

Yn ystod ein haddoli agoriadol, darllenwyd rhif 16 o'r *Cynghorion ac Ymholiadau* yn y Gymraeg a'r Saesneg.

2017.35 Y rheini sy'n bresennol heddiw

Rydym yn croesawu 46 o Gyfeillion yma heddiw, fel a gofnodwyd ar y rhestr bresenoldeb. Y cynrychiolwyr o'r Cyfarfodydd Ardal yw:

- Cyfarfod Ardal Canolbarth Cymru: Helen Porter
- Cyfarfod Ardal Gogledd Cymru: Ros Morley (yn adrodd), Frances Voelcker, Frank Brown
- Cyfarfod Ardal Gororau'r De: Hilary Beynon
- Cyfarfod Ardal De Cymru: a David Harries yn cael ei atal, mae Peter Davies wedi cytuno i adrodd o'r cyfarfod hwn.

Ein henadur heddiw yw Cynthia Rowland o gwrdd Trefaldwyn.

Ein cyfieithydd heddiw yw Glyn L. Jones

2017.36 Calon a *The Friend*

Bydd Lynn Moseley yn ysgrifennu adroddiad am y cyfarfod hwn i Calon a bydd Christine Trevett yn ysgrifennu adroddiad i The Friend.

2017.37 Cyfarchion ar 25 mlwyddiant sefydlu Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru

Mae cyfarchion a llongyfarchiadau i Gyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru oddi wrth y Clerc Cofnodi, Paul Parker, wedi cael eu darllen i'r Cyfarfod. Rydym wedi derbyn y canlynol gan y Dirprwy Glerc Cofnodi, Juliet Prager:

> Annwyl Gyfeillion, cofnodwyd y cofnod canlynol yn y Cyfarfod Dioddefiadau (CD) a gynhaliwyd ym Manceinion 6 Hydref. A wnewch chi drosglwyddo hwn i Gyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru pan fydd yn ymgynnull? Rydym yn anfon ein dymuniadau gorau oll gan obeithio y cewch chi ddathliad da gyda'ch gilydd.

CD 2017/10/13 Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru

> Deallwn y bydd Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru yn dathlu ym mis Hydref 25 mlynedd ers ei sefydlu ac anfonwn gyfarchion atynt oll.

Heddiw, yn y cyfarfod hwn, dathlwn 25ain o flynyddoedd ers sefydlu CCC ym 1992. Clywsom gan Catherine James am rhai o'r problemau oedd rhaid eu goresgyn wrth sefydlu'r cyfarfod, ac am rhai o'r agweddau cadarnhaol a'r llwyddiannau dros y blynyddoedd. Bellach, y cwestiwn yw, beth nesaf?

2017.38 Rhwydwaith Cyfiawnder Hiliol Cytûn

Mae Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru yn gwerthfawrogi'r cysylltiadau sydd gan y Crynwyr â Cytûn ac mae llawer o Gyfeillion yng Nghymru yn ymwneud â'i brosiectau a'i rwydweithiau. Mae Deborah Rowlands, sy'n gwasanaethu fel aelod o Fwrdd Cytûn, wedi siarad am ei rôl a rôl Cyfeillion eraill yn Cytûn ac wedi cyflwyno Natalie Danford o Gwrdd Abertawe. Mae wedi sôn wrthym am waith Rhwydwaith Cyfiawnder Hiliol Cytûn. Bydd cynrychiolwyr eglwysi'n dod at ei gilydd yn y fforwm yma i gadw mater cyfiawnder hiliol yn llygad y cyhoedd, i gydweithio mewn undod fel grŵp gan ymgyrchu a chydweithredu ag eraill, yn enwedig ar faterion hawliau dynol. Mae hi'n ein hatgoffa bod grwpiau crefyddol yn chwarae rhan bwysig wrth gynorthwyo ymfudwyr. Nid yn unig dros Gristnogion y mae Cytûn yn ymestyn allan ac yn pryderu. Diolchwn i Deborah a Natalie am eu cyfraniad heddiw.

2017.39 Ymestyn allan

Mae Gillian Sewell o *Quaker Life*, sy'n gyfrifol am ymestyn allan yn Friends House, wedi cael ei chroesawu. Nid chwilio am droi pobl y mae ymestyn allan, meddai wrthym, ond gwneud ffordd y Crynwyr yn hysbys ac yn ddealledig. Mae Gillian yn ein hannog i chwilio am gyfleoedd i gael presenoldeb Crynwraidd ac i wneud defnydd o'r adnoddau. Mae 250,000 yn mynychu Gŵyl y Gelli y mae pecyn gwybodaeth dwyieithog ar y gweill ar ei chyfer. Fe'n hanogwyd i gyfeirio Cyfeillion at yr arolwg ynglŷn ag Ymestyn Allan ac i awgrymu eu bod yn ei gwblhau. Mae ar gael ar https://www.surveymonkey.co.uk/r/Qoutreach17 Diolchwn i Gillian am ymuno â ni heddiw.

2017.40 Adroddiad Cyngor Cynrychioladol Quaker Life

Rydym wedi derbyn adroddiad Angela Ormrod am gynhadledd Cyngor Cynrychioladol Quaker Life ar '*Shape Shifting - New Models of Quaker Meeting and Community'.* Roedd wedi codi cwestiynau am yr angen am newid ac am arfarnu ein ffurfioldeb a gweinyddiaeth Grynwraidd; am chwilio am ffyrdd o wneud mwy o bethau gyda'n gilydd gyda meithrin cymuned Grynwraidd sy'n pontio'r cenedlaethau mewn cof. Mae cymdeithas wedi newid ac efallai y bydd angen i ni bellach ailfeddwl am bwy ydyn ni a beth rydym yn ei wneud, fel a wnaeth Cyfeillion yng Nghynhadledd Manceinion 1895 ac yn ei chanmlwyddiant ym 1995. "A ddylen ni geisio gwneud llai o bethau ond eu gwneud yn dda?" yw cwestiwn un Cyfaill. Diolchwn i Angela am yr adroddiad hwn ac am ei gwasanaeth dros y tair blynedd diwethaf.

2017.41 Sioe Frenhinol Cymru

Diolchwn i Jeff Beatty am gydlynu presenoldeb y Cyfeillion yn y Sioe ac am yr adroddiad y mae wedi'i ddarparu am ein presenoldeb ym mhabell Cytûn yno. Fe'i disgrifiodd fel profiad difyr gyda mwy o gyfle i gynnig addoli tawel eleni. A ddylid ailystyried darparu caplan Crynwraidd ar gyfer y digwyddiad?

2017.42 Yr Eisteddfod Genedlaethol

(a) Mae Gerald Hewitson, a ymwelodd â'r Eisteddfod Genedlaethol yn Ynys Môn yn ystod yr haf eleni, wedi ysgrifennu adroddiad am ei argraffiadau o'n gwaith ym Mhabell Cytûn sydd wedi cael ei gylchredeg. Ychwanegwn mai pabell eciwmenaidd yw pabell *Eglwysi Ynghyd yng Nghymru (*Cytûn), lle mae'r ymestyn allan yn ymwneud yn bennaf â lletygarwch Cristnogol i bawb yn yr eisteddfod. Mae Cyfeillion yn gwirfoddoli i oruchwylio ei Chornel Dawel at ddefnydd pob enwad a'r rheini sydd ddim yn arddel unrhyw enwad yn benodol.

Gwyneth Hewitson oedd y cydlynydd ar gyfer y Cyfeillion oedd yn gwirfoddoli eleni a diolchwn iddi am y gwasanaeth hwnnw.
(b) Darlith yr Eisteddfod: mae Gethin Evans wedi adrodd am ddarlith Huw Meredydd Owen â'i theitl 'gogleisiol' yn yr eisteddfod yn Ynys Môn yn 2017 oedd yn ddigon dyrys ond a dderbyniodd ymateb da. Bydd darlith 2018 yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd yn cael ei thraddodi gan Jane Harries, ar agweddau ar gynhysgaeth heddwch a chreu heddwch yng Nghymru wrth i gofféu'r Rhyfel Byd Cyntaf ddod i ben.

2017.43 Datganiad tablaidd Cyfarfod Blynyddol Prydain

Yn y datganiad tablaidd a grëwyd gan Friends House ynglŷn ag aelodaeth a phresenoldeb drwy CBP yn ei gyfanrwydd, mae'r Alban yn cael ei dangos ar wahân i Gymru a Lloegr ond nid yw Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru yn cael ei ddangos fel corff ar wahân. Nid yw'r mapiau hyd yn oed yn ein dynodi fel gwlad ar wahân. Gofynnwn y dylid gwneud hyn yn y dyfodol, o gofio bod ein haelodaeth yn cael ei ffurfio gan bawb sy'n byw a/neu'n addoli yng Nghymru. Rydym yn anfon y cofnod hwn at y Clerc Cofnodi i'w yrru ymlaen at y corff priodol.

2017.44 Cyfarfod Eilflwydd Clercod ac Ymddiriedolwyr Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru a Chyfarfodydd Ardal Cymru

'Dylem wneud gyda'n gilydd bopeth y gallwn a dim ond gwneud ar wahân yr hyn na allwn ei wneud gyda'n gilydd.'

Mae'r adroddiad (y dyfynnir ohono uchod) gan gyfarfod clercod ac ymddiriedolwyr Cymru wedi cael ei ddosbarthu. Nid ydym yn fawr o ran ein niferoedd yng Nghymru ac mae cryn ymdrech yn cael ei gwneud gan Gyfeillion. Sut gallai Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru hwyluso mwy o gydweithio a chefnogaeth gydfuddiannol ar draws Cymru? Rydym yn annog Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru i gynnig ymateb i'r materion hyn.

2017.45 Llwybr Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru i'r Dyfodol

Wedi clywed am ein gwaith yn y gorffennol a rhywfaint am ein gwaith yn y presennol, rydym wedi derbyn nifer o awgrymiadau ar gyfer gweithredu yn y dyfodol. O gofio amser cyfyngedig y cyfarfod hwn, bydd y mater yn ddarostyngedig i ddirnadaeth y clercod a Grŵp Ffocws Cymru Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru ac fe'i dygir i'n cyfarfod nesaf.

2017.46 Pecyn *Addysgu Heddwch* ar gyfer Ysgolion

Fel rhan o amlygu gwaith y Cyfeillion yng Nghymru yn ystod ein cyfarfodydd, mae Hilary Beynon wedi siarad â ni am brosiect y pecyn 'Addysgu Heddwch' ar gyfer ysgolion. Mae hwn yn gysylltiedig â'r grŵp Hedd Wen yn y Fenni ac mae ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae hefyd wedi sôn wrthym am wreiddiau a'r defnydd o ardd heddwch a man cyfarfod Hedd Wen a chawsom brofi tipyn o'i naws drwy gyflwyniad gweledol. Diolchwn i Hilary am ei chyflwyniad ysgogol.

2017.47 Ymddiriedolaeth Tai'r Crynwyr

Mae Mary Hammond, aelod o Gwrdd Caerdydd ac o Ymddiriedolaeth Tai'r Crynwyr, a ddechreuodd 50 mlynedd yn ôl, wedi siarad â ni am y gwaith hwn, yn enwedig yng nghyd-destun Cymru. Mae Cymru'n gwneud ymdrechion i atal digartrefedd ac i gefnogi adeiladu tai cymdeithasol i'w rhentu. Serch hynny, bu cynnydd yn nifer y digartref. Mae'r Ymddiriedolaeth yn dibynnu'n gyfan gwbl ar roddion a ddefnyddir i ariannu prosiectau

elusennol sy'n cael eu gweld fel rhai sy'n darparu tai i bobl yn uniongyrchol. Bydd aelod o'r pwyllgor yn ymweld â rhai o'r prosiectau. Gofynnwyd i ni ystyried ein tai ein hunain a sut maent yn effeithio ar ein bywydau, ystyried a allwn ni helpu i ariannu'r Ymddiriedolaeth ac a oes prosiect addas yn ein hardal ein hunain sydd angen ein help.

2017.48 Adnoddau

Mae Ros Morely wedi siarad am yr adnoddau sydd eisoes ar gael gynnon ni ac am yr angen i gydlynu ein gwaith â gwaith Friends House. Mae'r map o Gyrddau yng Nghymru yn cael ei ddiweddaru ac mae baner newydd yn cael ei pharatoi. Mae angen posteri sy'n fwy perthnasol i'w defnyddio yng Nghymru.

2017.49 Cylchoedd gorchwyl

Mae'r cylchoedd gorchwyl diweddaraf ar gyfer Pwyllgorau Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru wedi bod ar gael i'w gweld ar ein gwefan ac yn ystod amser cinio heddiw. Rydym wedi derbyn y cylchoedd gorchwyl newydd ar gyfer y pwyllgorau canlynol:

(a) adnoddau
(b) y pwyllgor enwebiadau
(c) y pwyllgor trefniadau
(d) grŵp ffocws
(e) ymddiriedolwyr

Bydd y rhain yn cael eu hatodi wrth y cofnodion.

2017.50 Trefniadau Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru ar gyfer 2018

Mae trefniadau a gynigiwyd ar gyfer 2018 wedi'u cymeradwyo fel a ganlyn:

24 Chwefror 2018: Eglwys Sant Thomas, Llanbedr Pont Steffan, Huw Meredydd Owen: "Yr Eiliad, yr Awr a'r Twll yn y To" - o ddarlith y Crynwyr yn Eisteddfod 2017.

30 Mehefin 2018: Tŷ Cwrdd y Cyfeillion, Wrecsam, Ben Pink Dandelion: "'*The State of the Society' : an overview of the latest sociological research into British Quakerism and some suggestions as to what it may be telling us.*"

27 Hydref 2018: Y Pales, Llandegley: Gethin Evans: "Heddwch: dilema'r Crynwyr yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf."

Mae'r eitem *Gwaith yng Nghymru* yn cael ei threfnu ar hyn o bryd drwy'r clercod ac nid gan y Pwyllgor Trefniadau ond er gwybodaeth, bydd y canlynol yn digwydd yn 2018:
Chwefror: Yr eitem Gwaith yng Nghymru fydd Theresa Haine (Llanbedr Pont Steffan) ar *Arian i Fadagasgar*
Mehefin: Yr eitem *Gwaith yng Nghymru* fydd Ruth Moore Williams (Rhuthun) ar CEM Berwyn
Hydref: Yr eitem *Gwaith yng Nghymru* fydd Maura Hazelden (Aberteifi), 'Ffoaduriaid yn Aberteifi a'r Cyffiniau'.

2017.51 Cofnodion i'w nodi rhwng cyfarfodydd:

(a) Archif Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru: Cynhaliwyd cyfarfod yn Aberystwyth 5 Hydref rhwng Deborah Rowlands (cyn-glerc Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru),

Christine Trevett (y clerc presennol), Jules Montgomery (Swyddog Gweinyddol) ac Alan Clark (archifydd y Cyfarfod) i adolygu cynnydd ar ailgyfansoddi archif goll y Cyfarfod. Yn anffodus, nid oes modd adfer peth o'r deunyddiau. Fodd bynnag, mae cynnydd yn cael ei wneud ar ailgyfansoddi'r cofnod o hanes a gwaith Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru. Nid fydd cofnodion cyn 2011 yn cael eu hadneuo yn yr archif tan 2018.

(b) Coffáu 25 mlynedd o Gyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru yn *The Friend*

Cynhaliwyd cynulliad cyntaf y Cyfarfod newydd i Gyfeillion yng Nghymru (Cyfarfod *y* Cyfeillion yng Nghymru'n nes ymlaen) ym mis Hydref 1992. Cytunwyd y bydd *The Friend* ym mis Tachwedd 2017 yn dathlu'r 25 mlwyddiant hwn gyda nifer o ddarnau gan ac am y Crynwyr a'u gwaith yng Nghymru, gan gynnwys rhai am Gyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru ei hun. Rydym yn diolch i'r rheini sy'n cyfrannu i'r ysgrifennu.

2017.52 Enwebiadau a phenodiadau

Yn y cyfarfod hwn, bu cais am ddau Gyfaill i ffurfio grŵp chwilio am enwebai o CAGD i'r Pwyllgor Enwebiadau, i wasanaethu'n syth a hyd at 31 Rhagfyr 2019. Ducpwyd yr enwau Hilary Beynon a Carolyn Sansom gerbron. A'r enwau hyn yn dderbyniol i'r Cyfeillion, penodwyd y ddau Gyfaill.

(a) Rhyddhau o wasanaeth:

(i) Gofynnodd Joyce Gooding a Pauline Brind am gael eu rhyddhau'n syth o'u gwasanaeth ar y Pwyllgor Trefniadau. Gwnaethpwyd hyn ddiwedd mis Gorffennaf a gofynnwyd i'r Pwyllgor Enwebiadau chwilio am ddau Gyfaill i wasanaethu'n syth.

(ii) Mae Kate Robertson (CAGD) wedi gofyn am gael ei rhyddhau o wasanaeth ar y Pwyllgor Enwebiadau a chytunwyd ar hyn ym mis Hydref.

(iii) Mae D. Bryn Jones wedi gofyn am gael ei ryddhau o wasanaeth ar y Pwyllgor Trefniadau. Gofynnir am enwebiadau i gael hyd i rywun i gymryd ei le hefyd, i wasanaethu'n syth.

(b) Enwebiadau sydd wedi'u dwyn gerbron:

- Mae Stevie Krayer a Carolyn Sansom, wrth geisio enwebiad ar gyfer y Pwyllgor Enwebiadau ar gyfer y tair blynedd nesaf, wedi dwyn enw Ann Boot (Penarth) gerbron. Roedd yr enw hwn yn dderbyniol i'r Cyfeillion ac fe'i penodwyd.
- I wasanaethu yng ngrŵp Swyddogion Polisi Eglwys a Chymdeithas Cytûn, hyd at 31.12.2018: David Harries. Roedd yr enw yma'n dderbyniol i'r Cyfeillion ac fe'i penodwyd.

(c) Enwebiadau a geisir:

- Cyd-glerc i wasanaethu'n syth a hyd at 31.12.2019.
- Cyd-glerc i wasanaethu o 01.01 2018 a hyd at 31.12.2020.
- Ymddiriedolwr i wasanaethu'n syth a hyd at 31.12.2019

- Golygydd i Calon i wasanaethu o 01.01.2018 hyd at 31.12.2020
- Tri Chyfaill i wasanaethu ar y Pwyllgor Trefniadau, yn syth a hyd at 31.12.2019 (neu efallai y bydd dyddiadau cyfnodol yn bosibl)
- Cyfaill i wasanaethu fel aelod o Gyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru ar Fwrdd Ymddiriedolwyr Cytûn, o fis Gorffennaf 2018 hyd at fis Mehefin 2021
- **Gan CADC,** cydlynydd ar gyfer presenoldeb y Cyfeillion yn Eisteddfod Genedlaethol 2018 yng Nghaerdydd.
- **Gan CAGD,** cydlynydd ar gyfer presenoldeb y Cyfeillion yn Sioe Frenhinol Cymru yn Llanelwedd, 2018

(d) Penodiadau a wnaethpwyd rhwng cyfarfodydd:

Cyfaill i fynychu ac adrodd am 500 mlwyddiant y Diwygiad Protestannaidd, yng Nghaerdydd, 31 Hydref. Christine Trevett.

Christine Trevett (clerc)

---

a Catherine James (clerc cynorthwyol)